ARHOLIADAU'R YSGOLORIAETH MYNEDIAD
IONAWR 2019

TWRISTIAETH

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn

Rhaid ateb UN o Adran A a DAU o Adran B.

ADRAN A

1. Esboniwch ystyr y term '*datblygu cynaliadwy'* a rhowch enghreifftiau i ddangos sut mae'r diwydiant twristiaeth yn mynd yn fwy cynaliadwy.

2. Ym mha ffyrdd y mae'r diwydiant twristiaeth yn y Deyrnas Gyfunol wedi newid dros y 200 mlynedd ddiwethaf? Pa ffactorau a ddylanwadodd i greu'r newidiadau hyn?

3. Pam y dynodwyd 2016 gan Lywodraeth Cymru yn '*flwyddyn antur'*? Beth yw'r cynnyrch twristiaeth antur yng Nghymru a pha farchnadoedd y mae Cymru'n darparu ar eu cyfer?

ADRAN B

4. Ym mha ffordd mae twristiaeth yn gymorth economaidd i gyrchfannau?

5. Sut y gallai ansefydlogrwydd gwleidyddol mewn gwlad effeithio ar dwristiaeth?

6. Enwch gyrchfan sy'n dod i'r amlwg a nodwch rai o'r heriau y gallai'r gyrchfan honno eu hwynebu.

7. Esboniwch ystyr y term 'eco-dwristiaeth' a rhowch enghreifftiau ohono ar waith.

8. Pa ran y mae'r llywodraeth yn ei chwarae wrth ddatblygu twristiaeth?

9. Beth yw goblygiadau tebygol y newid yn yr hinsawdd i'r diwydiant twristiaeth?

Diwedd y Papur